**EISTEDDFOD**
**Y Garreg Las**
1–8 Awst 2026

## 157. Gwobr Goffa Aled Lloyd Davies
## Cân yr Adar Man

Cainc 'Godimento', Berian Lewis, *Ceinciau Bro Gŵyr* [Cymdeithas Cerdd Dant Cymru] (1122)
*Y gainc yn y cywair gwreiddiol yn unig*

Rhwygo'r tir fu'r hen hen hanes, rhwygo'r glo i'n cadw'n gynnes,
rhwygo'r awyr las, myn Duw, yw rhwygo anadl popeth byw.
Ac am nad oes geiriau'n falm canaf eiriau cur
am adar mân fy Nghymru Lân a'u chwim adenydd dur.

Rhwygo'r dŵr fu'r hen hen stori, boddi'r cymoedd a'r pentrefi,
rhwygo'r awyr las, myn Duw, yw rhwygo anadl popeth byw.
Ac am nad oes geiriau hardd canaf eiriau hyll
am adar mân fy Nghymru Lân yn crawcian ofnau'r gwyll.

Rhwygo'r byd yw'r chwedl newydd, rhwygo cyd-ddyn wrth ei gilydd,
rhwygo'r awyr las, myn Duw, yw rhwygo anadl popeth byw.
Ac am nad oes geiriau drud canaf eiriau tlawd
am adar mân fy Nghymru Lân sy'n lladd fy chwaer a'm brawd.

Anelu a saethu o bellter byd, anelu a saethu dyna'i gyd,
'Gelyn' yw'r plant sy'n chwarae ar y stryd,
y rhain medde ti wrtho i sydd yn werth y byd,
rhain sydd yn werth y byd, rhain sydd yn werth y byd.

Mererid Hopwod